



Cynllun ar gyfer cynyddu mynediad i ddisgyblion ag anableddau.

Cytunwyd: ___/___/___

Llofnod: _____(Pennaeth) _____(Cadeirydd ar ran y llywodraethwyr)

Adolygu: _____

Mae cyfrifoldeb arnom i gynllunio i leihau rhwystrau i fynediad i blant ag anableddau fel y gellir rhoi'r cyfle gorau i blant y mae eu rhieni wedi mynegi dymuniad iddynt gael mynediad i'r ysgol i allu dod yma. Yn dilyn archwiliad o'r sefyllfa mae'r ysgol wedi adnabod y materion a nodir yn y cynllun cynyddu mynediad atodol fel materion y gellir yn rhesymol roi sylw iddynt, a byddwn yn anelu i gwblhau'r tasgau a nodwyd o fewn yr amserlen a gytunwyd. Roedd yr archwiliad yn rhoi sylw i'r tri maes a nodir yng nghanllawiau'r Cynulliad sef:

- Cynyddu'r graddau y mae disgyblion anabl yn gallu cymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol.

- Gwella amgylchedd ffisegol yr ysgol.

- Gwella'r modd mae gwybodaeth ysgrifenedig a roddir i ddisgyblion heb anableddau yn cael ei gyflwyno i ddisgyblion ac anableddau.

Gwnaed yr archwiliad drwy ddefnyddio'r fframwaith a gynhwyswyd yng nghanllawiau'r Cynulliad sef "Cynllunio ar gyfer Cynyddu Mynediad i Ysgolion i Ddisgyblion ag Anableddau".

Pe byddai'r Awdurdod Addysg yn caniatáu mynediad i blentyn ag anableddau i'r ysgol yna fe fydd yr ysgol, mewn cydweithrediad â'r Awdurdod, yn asesu gofynion y plentyn ac yn diwygio'r cynllun gweithredu yn unol â chanlyniadau'r asesiad.

Cynllun Cynyddu Mynediad Ysgol Morfa Rhianedd

Lluniwyd y cynllun hwn ar ôl:

- 1) cynnal archwiliad o safle'r ysgol mewn perthynas â mynediad,
- 2) ystyried dulliau cyffredinol o wella mynediad
- 3) ystyried anghenion unrhyw blant ag anableddau sydd yn yr ysgol.

Bydd yr ysgol yn monitro gweithrediad y cynllun ac yn cadw anghenion mynediad yr ysgol dan adolygiad.

Cynllun 'Hygyrchedd' Ysgol Morfa Rhianedd - pe byddai plentyn ag anableddau yn mynychu yr ysgol.

	Targedau	Strategaethau	Canlyniad	Amserlen	Nodau a gyflawnwyd
Tymor Byr	Parhau i ofalu fod deunydd ysgrifenedig amgen ar gael pan fo angen. Addasu a chynnal yr	Gwybod lle i gael y deunyddiau a pha athrawon ymgynghorol sydd ar gael i roi	Deunydd ar gael yn barod. Adeilad yn addas. Blaen y grisiau yn glir.	Parhaus	Dulliau wedi eu adnabod a'u defnyddio. Plant ag anabledd golwg yn gallu cael mynediad

	adeilad ar gyfer mynediad i blant rhannol ddall.	cefnogaeth. Paentio blaen y grisiau, gofalu fod y bleinds yn eu lle.	Goleuni ddim yn amharu ar y plant.		llawn
Tymor Canolig	Hyfforddi athrawon ar wahaniaethu'r cwricwlwm	Ar ôl cynnal archwiliad mae'r ysgol yn penderfynu y byddai athrawon yn elwa o gael hyfforddiant am wahaniaethu'r cwricwlwm.	Mae athrawon yn gallu diwallu anghenion plant anabl yn llawn o ran mynediad at y cwricwlwm.	Blynyddol(rhan o DPP)	Cynnydd yn y mynediad at y Cwricwlwm Cenedlaethol.
Tymor Hir	Trafod sefyllfa 'hygyrchedd' yn rheolaidd. Gwneud addasiadau fel bo angen- fel a'r plentyn yn hyn, neu yn debygol o dderbyn mwy o blant ag anabledd.			Adolygu Chwefror 2015	